# PWYLLGOR CRAFFU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

## DYDD MAWRTH, 28 TACHWEDD 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd G. H. John (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | |
|---|---|---|
| A. Evans | P. Hughes-Griffiths (yn lle B. Davies) | H. Jones |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| K. Davies | M. Donoghue | M. James | D. Owen |
| F. Walters | P.T. Warlow | J. Williams | |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
J. Tremlett, Aelod Cabinet dros Iechyd Gwasanaethau Cymdeithasol

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
A. Bracey, Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion
J. Jones, Pennaeth Gwasanaethau Integredig dros dro
A. Thomas, Gyfrifydd Grwp
J. Coles, Pennaeth Plant a Theuluoedd
N. Thomas, Rheolwr Gwasanaethau
R. Page, Uwch Reolwr Cymorth Busnes
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
D. Hall-Jones, Member Support Officer
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
J. Morgan, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 11.10 yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr B. Davies a J. Jenkins.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.**

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip waharddedig.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. PWNC AWGRYMEDIG AR GYFER ADOLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor gais gan Mr Alex Williamson o Ymddiriedolaeth WAVE yn gofyn i'r Pwyllgor edrych:

- a oedd unrhyw fylchau yn y darpariaethau presennol oedd ar waith yn Sir Gaerfyrddin yn ymwneud â rhagdybiaeth a chymorth blynyddoedd cynnar.
- a oedd unrhyw fylchau yn y darpariaethau presennol oedd ar waith yn Sir Gaerfyrddin o ran gwasanaethau rheng flaen megis tai, refeniw a budd-daliadau a gwasanaethau cysylltiedig fel y Ganolfan Byd Gwaith ynghylch gweithredu arferion ymwybodol o drawma a/neu ddulliau ymwybodol o drawma.

Cyflwynodd Mr Alex Williamson ei achos a'i resymau i'r Pwyllgor ynghylch pam y dylid adolygu'r materion a godwyd. Diolchodd Mr Williamson i'r swyddogion am yr adroddiad a'u tryloywder wrth gydnabod y meysydd i'w gwella.

Dywedodd Mr Williamson wrth y Pwyllgor fod Ymddiriedolaeth WAVE ers 2010 wedi bod yn ymgyrchu i leihau lefel y plant oedd wedi profi camdriniaeth ac esgeulustod ar draws y DU o leiaf 70% erbyn 2030. Dywedodd y byddai nod o'r fath ond yn gyraeddadwy pe bai Ymddiriedolaeth WAVE yn gallu gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ledled y DU a gweithio gyda nhw i gyflawni cynlluniau gweithredu lleol. Roedd cynlluniau eisoes yn cael eu llunio ar draws nifer o gynghorau yn Lloegr a'r Alban. Fodd bynnag, nid oedd yr un awdurdod lleol yng Nghymru wedi ymrwymo eto a gofynnodd i'r pwyllgor ystyried a oedd posibilrwydd i Sir Gaerfyrddin fod y cyntaf.

Dywedodd y Cadeirydd wrth Mr Williamson fod gweithio mewn partneriaeth y tu allan i friff y Pwyllgor Craffu ond o bosib bod hynny'n rhywbeth y gallai'r Tîm Comisiynu ei ystyried.

Cytunodd y Pwyllgor fod yr adroddiad a ddarparwyd gan swyddogion yn nodi safbwynt clir o ran y sefyllfa bresennol, ond dylai'r Pwyllgor fonitro'r cynnydd o ran mynd i'r afael â'r bylchau hyn. Awgrymodd y Pennaeth Plant a Theuluoedd y dylai'r Pwyllgor adolygu'r Strategaeth Cymorth i Deuluoedd a oedd yn cael ei llunio ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Strategaeth Cymorth i Deuluoedd yn cael ei hychwanegu at y Blaengynllun Gwaith.**

## 5. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2023/24

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Awst, 2023, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2023/24.

Roedd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhagweld gorwariant o £7,902k ar y gyllideb refeniw. Dangosodd y prif amrywiadau ar gynlluniau cyfalaf amrywiant disgwyliedig o -14k yn erbyn cyllideb net o £1,139k ar brosiectau gofal cymdeithasol, ac amrywiad o -£230k yn erbyn cyllideb net prosiectau'r Gwasanaethau Plant o £517k.

Amlygodd yr Aelod Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y gorwariant cyllidebol a ragwelir ar Wasanaethau Plant o bryder sylweddol i sefyllfa'r gyllideb gorfforaethol, ac wrth gydnabod hyn sefydlwyd gweithgor i ymchwilio a nodi camau cywirol lle bo hynny'n bosibl. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y gweithgor yn cyfarfod yn wythnosol ac yn cael ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Weithredwr ac yn cynnwys uwch-swyddogion o bob rhan o'r Cyngor, yn ogystal â thîm arweinyddiaeth y Gwasanaethau Plant.

Unwaith eto, mynegodd y Pwyllgor eu pryder bod yr adroddiad ond yn ymdrin â'r sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Awst. Dywedodd Cyfrifydd y Grŵp ei bod wedi cymryd tua dau fis i greu ac adolygu'r adroddiadau, ac i'r adroddiad fynd drwy'r broses ddemocrataidd, ond rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y Tîm Cyfrifeg yn adolygu'r broses yn rheolaidd ond nad oeddent wedi gallu dod o hyd i ffordd o leihau'r amser roedd llunio'r adroddiadau yn ei gymryd. Soniwyd hefyd fod yr adroddiad yn rhagweld y flwyddyn gyfan ac nid mis Awst yn unig.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r cynnydd ariannol ar gyfer darparu gofal cartref a gwasanaethau i oedolion, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol fod y sefyllfa yn waeth oherwydd chwyddiant ac y byddai'n anodd ystyried hyn yn y gyllideb. Dywedwyd byddai cadw rhai swyddi'n wag (fel Gweithwyr Cymdeithasol) yn wrthgynhyrchiol gan y byddai costau comisiynu yn uwch.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 6. DOMICILIARY CARE PERFORMANCE UPDATE

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yr oedd wedi gofyn amdano yn ymwneud â'r pwysau presennol ar ofal cartref, a'r effaith yr oedd hyn yn ei chael ar ryddhau cleifion o ysbytai. Bwriad yr adroddiad oedd rhoi sicrwydd bod cleifion yn cael cefnogaeth ddiogel i adael yr ysbyty ac roedd yn amlinellu'r pwysau a sut roedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymateb i'r pwysau hynny.

Yr adroddiad hwn oedd y trydydd diweddariad yr oedd y Pwyllgor wedi'i gael a oedd yn cynnwys y data diweddaraf a gasglwyd hyd at ddiwedd Medi 2023.

Amlygodd yr Aelod Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod gwelliannau wedi bod, yn enwedig ers mis Awst 2023, a bod hyn yn cyd-fynd ag ail-lansio'r Fframwaith Gofal Cartref ac ychwanegu 4 darparwr gofal newydd a oedd wedi cynyddu capasiti'r sector ymhellach.  O ganlyniad, roedd twf cyffredinol wedi bod yn nifer yr oriau a gomisiynwyd ar gyfer gofal cartref, a gostyngiad mewn oriau ac yn nifer y bobl oedd yn aros yn y gymuned ac mewn ysbytai.

Nodwyd, er bod cynnydd wedi'i wneud, fod cryn dipyn o angen heb ei ddiwallu o hyd yr oedd angen ei fonitro er mwyn sicrhau bod pobl yn parhau i fod yn ddiogel wrth aros am ofal.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod cyfarfod yn cael ei gynnal bob pythefnos i adolygu arosiadau hir mewn ysbytai er mwyn sicrhau bod yr holl opsiynau wedi'u hystyried, gan leihau nifer y bobl oedd yn gorfod aros am gyfnod hir yn yr ysbyty. Hefyd, roedd paneli uwchgyfeirio yn cael eu cynnal ddwywaith yr wythnos a chai'r holl achosion anodd eu cyfeirio iddynt. Roedd yr adolygiadau hyn o gleifion arhosiad hir wedi lleihau'n sylweddol y niferoedd â hyd arhosiad o fwy na 100 diwrnod, a fyddai yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar gomisiynu gofal cymdeithasol.

Nodwyd bod yr Awdurdod hefyd yn cynnig Delta CONNECT a thaliadau uniongyrchol i'r sawl oedd angen y gofal, a hefyd i'r gofalwr a oedd yn darparu gofal i gefnogi unigolion tra oeddent yn gofalu am rywun oedd yn aros am ofal.

Dywedwyd bod y twf yn nifer yr oriau a gomisiynwyd ar gyfer gofal cartref oddeutu 7% ar gyfer 6 mis cyntaf 2023-2024. Tua £1m oedd y gorwariant a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn bresennol - gan dybio byddai twf pellach yn Hydref - Mawrth.  Cafodd hyn ei wrthbwyso'n rhannol gan y gostyngiad yn yr oriau roedd ein gwasanaeth mewnol yn eu darparu.  Rhagamcanwyd tanwariant yn y gwasanaeth mewnol o £727k (adeg monitro'r gyllideb yn Awst 2023) o achos problemau recriwtio staff.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag ail-lansio'r fframwaith Gofal Cartref a'r sefyllfa cwympo'n ôl ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan y comisiynu, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol fod cael 4 asiantaeth Gofal Cartref yn fanteisiol, oherwydd pe bai un yn mynd yn fethdalwr byddai tair asiantaeth arall ar gael.  Rhoddwyd sylw i bwysigrwydd cael gwasanaeth mewnol i ddarparu parhad gofal ac ystyriwyd bod hynny'n elfen hanfodol o ddarpariaeth gofal.

Mewn ymateb i'r cyfeiriad at ystadegau'r Bwrdd Iechyd ynghylch rhyddhau cleifion o'r ysbyty a'r rhai oedd yn aros am ofal, dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Integredig fod gwaith yn cael ei wneud wrth 'ddrws ffrynt yr ysbyty' i adnabod y bobl fregus ac i'w cynorthwyo i dychwelyd i'r gymuned. Roedd data'n dangos gwelliant o ran y nifer oedd yn cael eu rhyddhau o fewn 72 awr.

Ar ran y Pwyllgor estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i dîm Gartref yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin, a oedd wedi ennill rownd derfynol Cymru yng Ngwobrau Gofal Prydain eleni.

Mynegodd y Pwyllgor ddiolch hefyd i swyddogion am ansawdd yr adroddiad a oedd wedi cael ei lunio.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 7. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad craffu canlynol.

- Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid
- Seibiannau byr/gwasanaethau cymunedol ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd

**PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.**

## 8. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

**PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 18 Rhagfyr 2023**.

## 9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 4YDD HYDREF, 2023

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 4 Hydref 2023 gan eu bod yn gywir.**

| | |
|---|---|
| **CHAIR** | **DATE** |